## PWYLLGOR ARCHWILIO 13-02-12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gethin G. Williams (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, T.G. Ellis, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Charles W. Jones a Sian Gwenllian (Arweinydd Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gwen Carrington (Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ian Jones (Uwch Reolwr Datblygol – Adran Darparu a Hamdden), George Watson (Rheolwr Cyfleusterau – Adran Darparu a Hamdden), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dylan Edwards, R.L. Jones, Llinos Merks, Dewi Owen, Ioan Thomas

<u>Croeso</u>
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Derwyn Owen Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones yn yr eitem yn ymwneud â'r System Bancio Electronig gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Pensiynau'r Cyngor.

Y Cynghorwyr T.G. Ellis, John P. Roberts a Gethin G. Williams yn yr eitem yn ymwneud â Mânddaliadau gan eu bod yn aelodau o Banel Mânddaliadau'r Cyngor.

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Gethin G. Williams yn yr eitem yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch – Tripiau Plant gan eu bod yn lywodraethwyr ysgolion.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn yr eitem "Ymateb yr Adran Darparu a Hamdden i Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Bwll Nofio Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog" gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Apelau Cyflogaeth y Cyngor a ystyriodd achos aelod o staff Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog o fewn y 12 mis diwethaf.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2011 fel rhai cywir.

## 3. CYNNYRCH YR ADRAN ARCHWILIO MEWNOL – SYSTEM INTEGREDIG PLANT

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y pwyllgor, yn dilyn ystyriaeth yn y cyfarfod blaenorol o'r adroddiad ar ganlyniad gwaith archwiliad mewnol yn ymwneud â datblygiad y System Integredig Plant, wedi gwneud cais i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau ynglyn â'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt datblygiad y system a'r risgiau a wynebai'r Cyngor.

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a RIsg mai bwriad y system oedd cyflwyno trefniadau ffurfiol o fewn awdurdodau lleol i roddi sicrwydd ar drefniadau diogelwch plant bregus ac fe'i adeiladwyd ar sylfaen y Fframwaith Asesu (2001) a'r Canllawiau Amddiffyn Plant (2002 a 2008). Rhyddhawyd nifer o ddogfennau gan Lywodraethau San Steffan a Chymru sy'n diffinio agweddau'r system sef –
a) ICS 1a (WAGC 21/2005) gyda'r disgwyliad y byddai hwn wedi ei weithredu erbyn 31 Rhagfyr 2006.
b) ICS 1b (WAGC 37/2007) er mwyn ei weithredu erbyn 31 Rhagfyr 2008.
c) ICS 1c (WAGC 23/2008) gan ddisgwyl gweithrediad erbyn 30 Ebrill 2010.

Nododd bod canllaw statudol 1c bellach wedi ei ddiddymu yn Lloegr, ond nid yw'r disgwyliadau statudol wedi eu llacio eto yng Nghymru, er bod awdurdodau lleol yn disgwyl arweiniad tebyg gan Lywodraeth Cymru ers Hydref 2010.

Cyflwynwyd "Adroddiad cynnydd ar berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol" i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 30 Tachwedd 2010 yn egluro pam nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda ICS 1a, er mai'r targedau gwreiddiol oedd 31 Rhagfyr 2006. O gydnabod safbwynt diffyg gweithredu 1a, eglurwyd na fyddai'r prosiect ICS yn cyrraedd ei dargedau allweddol i'r cyfnod hwnnw yn sgîl agweddau mwy uchelgeisiol ICS 1b a 1c sydd eto i'w gweithredu. Trafodwyd y sefyllfa parthed adnoddau a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth wrth i gyfeiriadau a nifer o blant mewn gofal gynyddu. Yn sgîl canlyniad adroddiad "Babi P", derbyniwyd bod newidiadau ar y gorwel a disgwylir i brosiect ICS ddod i ben yn ei ffurf bresennol, er na dderbyniwyd cadarnhad hyd yn hyn ei fod am gael ei ddiddymu yng Nghymru. Felly, gan bod system ICS, yn ddamcaniaethol i fod i barhau hyd nes y derbynnir cadarnhad ffurfiol ei fod yn dod i ben, ni ellir felly roddi sicrwydd archwilio ar y rheolaethau mewn lle gan bod elfen fawr o risg yn parhau i berthyn iddo.

Adroddodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r sefyllfa hanesyddol yw y disgwylir i bob Cyngor ddod â'r trefniadau ICS i rym. Yn ystod 2004/2005 'roedd yna bryder cynyddol parthed gallu'r Cyngor i adrodd ar feysydd gwaith oedolion. O ran trefniadaeth, 'roedd yn rhaid i'r Cyngor geisio dod i benderfyniad parthed dyrannu adnoddau o ran blaenoriaethau o fewn yr adran a chanlyniad hynny oedd bod llai o adnoddau ar gael i weithio ar y rhaglen ICS gan bod adnoddau wedi eu hailgyfeirio i edrych ar faterion yn y maes oedolion. Nid oedd y gwasanaeth plant oedd bryd hynny dan y

Gyfadran Datblygu, yn hapus am hynny. Ers hynny parheir i roddi adnoddau ar gyfer y rhaglen waith. Nododd yr ariannwyd y rhaglen waith gan arian grant ond erbyn hyn mae'r grant wedi dirwyn i ben gyda'r canlyniad bod yna elfen o roddi llai o arian i gyllid y Cyngor a olygai hefyd leihad yn nifer y swyddi. Cyfeiriodd hefyd at feirniadaeth a oedd yn cynyddu'n genedlaethol yng Nghymru a Lloegr bod y trefniadau ICS wedi anfon swyddogion yn ormodol ar y llwybr technoleg gwybodaeth ac fe arweiniodd hynny at newid pwyslais yn genedlaethol. Parthed y sefyllfa yng Nghymru nododd y bwriad i adolygu'r drefn a fydd yn cael ei gynnwys o fewn y rhaglen waith. O ran sefyllfa Gwynedd, mae ICS yn ymwneud ag ymarfer, a disgwylir i'r ymarfer hwnnw gael ei gofnodi yn electroneg. Cyhoeddwyd nifer o dempledi/ffurflenni yng Nghymru a oedd yn uniaith Saesneg. Nododd i'r Cynulliad wrthod cyfieithu'r ffurflenni hyn ac oherwydd hynny mae'r Cyngor hwn wedi ymgymryd â'r gwaith o'i cyfieithu ar gyfer defnydd staff. 'Roedd hyn felly wedi creu ychwaneg o waith i swyddogion yr adran. Y llynedd gwnaed adolygiad o'r adnodd ychwanegol a fyddai ei angen i wneud y gwaith, pryd yr amcangyfrifwyd y byddai angen oddeutu pedwar swyddog ychwanegol. Nododd mai'r sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y cyd-destun cenedlaethol yn newid. Mewn cydweithrediad â'r Cynulliad a siroedd eraill Cymru bwriedir gosod safonau mesuriadau lleol yn y maes hwn. Cadarnhawyd bod yr adran wedi mynd ati i gyflwyno ICS er mwyn sicrhau ymarfer o ansawdd da, ac yn hynny o beth wedi osgoi'r meysydd sy'n arwain at feirniadaeth cenedlaethol ar hyn o bryd. Enghraifft o hyn oedd y model asesu risg a ddatblygwyd o fewn y rhaglen ICS. Derbyniodd y model gymeradwyaeth cenedlaethol a'i wobrwyo. Pwysleisiwyd hefyd bod rhaglen waith ymarfer yn parhau er mwyn cyflwyno'r templedi mewn ffordd addas o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Datganodd aelod anfodlonrwydd bod y Cynulliad wedi gwrthod cyfieithu'r ffurflenni ac y dylid anfon llythyr atynt i'w hatgoffa o'i polisi iaith sy'n ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel statws corfforaethol.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn eglurhad y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol parthed y diweddariad o safbwynt datblygiad y System Integredig Plant.**
**b) Anfon llythyr at y Cynulliad yn datgan anfodlonrwydd iddynt wrthod cyfieithu'r ffurflenni a'u hatgoffa o'i polisi iaith sy'n ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan dynnu sylw hefyd bod hyn yn amharu ar hawliau dynol y swyddogion i weithio yn eu iaith dewisol.**

## 4. YMATEB YR ADRAN DARPARU A HAMDDEN I ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL AR BWLL NOFIO BRO FFESTINIOG, BLAENAU FFESTINIOG

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y pwll nofio yn parhau dan reolaeth yr Adran Darparu a Hamdden ond i reolaeth y neuadd chwaraeon gael ei drosglwyddo i Ysgol y Moelwyn. Cwblhawyd archwiliad yn Chwefror 2011 ac fe dderbyniodd categori barn "C" oherwydd nad oedd trefniadau rheolaethol digonol mewn lle. Cynhaliwyd archwiliad dilyniant yn ystod haf 2011 a gwelwyd bod gweithrediad ar yr argymhellion yn anfoddhaol. 'Roedd yr adroddiad gwreiddiol yn cynnwys 22 argymhelliad gyda 21 yn berthnasol i'r Adran Darparu a Hamdden. Nododd i'r pwyllgor ar 17 Tachwedd 2011 wneud cais i'r Pennaeth Darparu a Hamdden fynychu'r cyfarfod er mwyn ateb unrhyw gwestiynau ynglyn â'r sefyllfa ddiweddaraf.

‘Roedd aelod o’r farn y dylai’r Arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid mai’r drefn ar hyn o bryd yw gwahodd y Pennaeth Adran perthnasol, pe cyfyd yr angen, i fynychu’r cyfarfod er mwyn ateb unrhyw gwestiynau yn codi o’r adroddiadau archwilio. Gellid ystyried y mater ymhellach yn sgîl newidiadau i rôl y Pwyllgor Archwilio yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2012.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Datblygol yr archwiliwyd, fel rhan o raglen archwilio’r Adran Archwilio Mewnol yn ystod 2010, pump o ganolfannau hamdden y sir, a dyfarnwyd bod tair ohonynt yn disgyn i gategori “C” o ran cydymffurfiaeth ac unai rheoliadau ariannol neu weithdrefnau gweithredu’r Cyngor ac ‘roedd Canolfan Bro Ffestiniog yn un o’r canolfannau yn y categori hwnnw. Mewn ymateb i’r adroddiadau hynny, paratowyd adroddiad i’r pwyllgor hwn yng Ngorffennaf 2011 yn nodi bwriadau’r adran o ran ymateb i’r sefyllfa a lliniaru’r risgiau a adnabuwyd.

Mewn perthynas â’r System Rheolaeth Integredig, nodwyd diffygion penodol ynglyn â threfniadau bancio’r canolfannau hamdden ac fel modd o liniaru’r risgiau, nodwyd bod angen gwelliannau i’r systemau rheolaethol o ran sicrhau ansawdd a hyfforddiant i staff. Cadarnhaodd y cwblhawyd y gwaith hwnnw yn Nhachwedd 2011. Erbyn hyn, derbyniodd yr adran adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol yn Rhagfyr 2011 ar drefniadau bancio canolfannau hamdden a gweithredwyd ar argymhellion gweithredu’r adroddiad hwnnw’n ogystal.

Nododd y swyddog y cwblhawyd y newidiadau strwythurol a’u bod mewn lle. Fodd bynnag, mae’r Cymhorthydd Monitro Ansawdd ar absenoldeb tymor hir ar sail iechyd, ac felly nid yw’r adran yn gallu cyflawni’r rôl monitro yn unol â’u dymuniad ar hyn o bryd ond mae’r Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i ddiweddaru canllawiau gweithredu ac i gynnal hyfforddiant i staff.

Nododd ymhellach, o’r 21 argymhelliad yn yr adroddiad archwiliad mewnol, fe weithredodd y ganolfan ar wyth ohonynt yn llawn a deuddeg yn rhannol erbyn Medi 2011. Parthed y newidiadau rheolaethol, fe ataliwyd Rheolwr y Ganolfan o’i waith yn Rhagfyr 2010 ond ni chwblhawyd y drefn ddisgyblu tan Medi 2011. Felly, yn ystod y cyfnod rhwng yr adroddiad archwilio mewnol cyntaf a’r un dilynol nid oedd rheolwr sefydlog mewn lle’n y ganolfan. Erbyn hyn, mae’r sefyllfa’n parhau i fod yn fregus ond edrychir i wneud apwyntiad parhaol erbyn diwedd Mawrth 2012 yn dilyn derbyn adroddiad gwerthuso opsiynau rheolaethol. Mewn perthynas ag absenoldeb tymor hir un aelod o staff yr adran, ‘roedd hyn wedi cael effaith andwydol ar y gwaith o fonitro a gwella systemau’r ganolfan. Fodd bynnag, drwy ail flaenoriaethu ar sail tymor byr, llwyddwyd i wella’r sefyllfa, ond bydd gwaith yn parhau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a gallai hynny ddigwydd yn gynt unwaith bydd yr aelod staff wedi dychwelyd i’w gwaith.

Nododd bod y ganolfan bellach wedi gweithredu’r argymhellion a nodir yn nhabl 1 o’r adroddiad yn eu cyfanrwydd.

Gofynnodd aelod pam nad yw rheolaeth y pwll nofio yn cael ei drosglwyddo i Ysgol y Moelwyn yn ogystal. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog i’r ysgol ofyn yn benodol am gael cymryd rheolaeth o’r neuadd chwaraeon yn unig.

Tynnodd aelod sylw bod cyfnod o naw mis rhwng yr adeg yr ataliwyd Rheolwr y Ganolfan Hamdden o’i waith a’r adeg y cwblhawyd y drefn ddisgyblu a

gofynnodd pam bod yr achos wedi cymryd yr holl amser. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod y broses apêl yn yr achos hwn, oherwydd cymhlethdodau a.y., wedi cymryd cryn amser i'w gwblhau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr 2011. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, cyfeiriodd y swyddog at -

- 17 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 5 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 4 adolygiadau grant
- 1 archwiliadau dilyniant
- 2 archwiliadau ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 2 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 15 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau'n unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol:-

**Rheoli Contractau – Ysgol yr Hendre, Caernarfon**

Cyfeiriodd aelod at y gost ychwanegol o £50,000 sydd ynghlwm â'r cynllun a gofynnodd o pa ffynhonnell ariannu y canfyddir yr arian. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid yr ystyriwyd y mater gan y Prif Bwyllgor Craffu ar 9 Chwefror 2012 pryd y cyflwynwyd bid am £50,000 refeniw ychwanegol at y gost o redeg yr adeilad oherwydd ansawdd uchel a maint sylweddol yr adeilad newydd.

**Grantiau**

Gofynnodd aelod os y craffir y grantiau gan Bwyllgor Craffu neu Weithgor. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad mewnol yn edrych yn benodol ar y grantiau o safbwynt y dull o'i gweinyddu yn hytrach na'r rheswm tros dderbyn y grant.

**Ardystio a Cywirdeb Codio Anfonebau o fewn Adrannau'r Cyngor**

Tynnodd aelod sylw at y pwynt bwled yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at "bod rhif cofrestru TAW dilys ar yr anfoneb ynghyd â chyfradd y TAW" a gofynnodd a oedd yn ffeithiol gywir. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y pwyntiau bwled yn adrodd y materion penodol a'r profion a gynhaliwyd yn ystod yr archwiliad penodol hwn, ac nad oeddynt yn cynnwys yr holl reolaethau yn y system daliadau. O safbwynt dilysrwydd y rhifau TAW, hysbysodd y swyddog y defnyddir fformiwla perthnasol i ganfod dilysrwydd rhif TAW.

**Iechyd a Diogelwch – Tripiau Ysgol**

Awgrymodd aelod y dylai bob pennaeth ysgol dderbyn copi o adroddiad yr archwiliad hwn. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at drefniant sy'n bodoli gyda'r Adran Addysg pryd yr hysbysir ysgolion o'r canfyddiadau/gwendidau pan wneir archwiliadau o ysgolion Nododd mai un ysgol yn unig oedd yn creu pryder pan wnaed yr archwiliad hwn.

**System Bancio Electronig**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden**

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod y mater hwn wedi bod gerbron y pwyllgor rhai misoedd yn ôl pan yr adroddwyd yr adeg hynny i'r archwiliad dderbyn barn wael. 'Roedd y sefyllfa erbyn hyn wedi gwella gan i'r archwiliad diweddaraf dderbyn categori barn "B" ac y dylid llongyfarch yr Adran Darparu a Hamdden am hynny.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Darparu a Hamdden yn nodi bod y sefyllfa erbyn hyn wedi gwella gan i'r archwiliad diweddaraf dderbyn categori barn "B" a'u llongyfarch am hynny.**

**Rheolaeth Datblygu – Penderfyniadau Dirprwyedig**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Rheoleiddio yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd i 31 Rhagfyr 2011 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2011/12.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 27 Ionawr 2012 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 12 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 16 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 79 |
| Wedi ei gau | 3 |
| **Cyfanswm** | **113** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 7 |

Nododd mai targed perfformiad 2011/12 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2012. Nododd hefyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 27 Ionawr 2012 yn 72.6% ac allan o'r 113 archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2011/12, 'roedd 79 wedi eu rhyddhau'n derfynol a tri arall wedi eu cau.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, rhoddodd y swyddog fanylion am yr addasiadau hynny i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2011/12.**

## 7. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012-2015

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol tair blynedd y Cyngor.

Nododd bod rhan 7.1 Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 ("y Côd Ymarfer") yn datgan bod rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol gynhyrchu strategaeth archwilio – mae'n ddatganiad lefel uchel o sut y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i gylch gorchwyl a sut mae'n cysylltu i amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad.

Adroddwyd bod y Strategaeth yn cynnwys nifer o benawdau ynglyn â darpariaeth Archwilio Mewnol:

- pwrpas Archwilio Mewnol
- sut mae Archwilio Mewnol yn byw gwerthoedd y Cyngor
- sut ydym yn cynnal safonau
- pa archwiliadau sydd rhaid eu cyflawni'n flynyddol
- sut bydd archwiliadau pellach yn cael eu dewis
- cydweithio ac eraill
- mathau o archwiliad fyddai'n cael eu cynnal
- dulliau adrodd
- darpariaethau
- yr adnoddau sydd ar gael
- mesur ansawdd
- risgiau a wynebai Archwilio Mewnol

Awgrymodd aelod y dylai pob aelod o'r Pwyllgor Archwilio, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2012, dderbyn copi o'r strategaeth fel dogfen ar wahân.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 a bod pob aelod o'r Pwyllgor Archwilio, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2012, i dderbyn copi o'r strategaeth.**

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi manylion am gynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol

2012/13 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gyda swyddogion.

Eglurodd y swyddog bod Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan y "dylai'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio". Mae'r adroddiad yn egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r pwyllgor.

Nododd mai Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 yw sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n egluro sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sy'n eu lle o fewn Cyngor Gwynedd. Mae'r strategaeth hefyd yn egluro sut bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cael ei gynllunio yn y cyfnod dan sylw, ac yn egluro sut y bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella er lles y dinesydd. Yn ogystal mae'n amlinellu'r adnoddau y disgwylir y bydd ar gael iddo ac yn datgan y rhagolygon o safbwynt cydweithio ag eraill.

Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd oddeutu 1,360 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried darpariaethau ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb, gwaith ymatebol a gwaith dilyniant.

Nododd bod y strategaeth yn rhoddi disgrifiad manwl o'r camau a ddilynwyd i greu cynllun archwilio gweithredol ar gyfer 2012/13. Fel cam cyntaf, rhoddir ystyriaeth i faterion sy'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun yn flynyddol ac yna rhoddir ystyriaeth i archwiliadau eraill sydd angen cynllunio amdanynt. Defnyddir trefn systematig i gynnal asesiad anghenion archwilio ac adnabod meysydd i'w harchwilio.

Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol cyn dechrau ar yr archwiliadau hyn ac fe ymgorfforir eu hawgrymiadau yn y cynllun terfynol.

Mewn perthynas â'r archwiliad y bwriedir ei wneud ar "reoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd – gwerth am arian", awgrymodd aelod y dylai'r ysgolion hynny dderbyn copi maes o law o ganlyniadau'r archwiliad.

Nododd y Pennaeth Cyllid y gallai'r aelodau gysylltu â'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg os ydynt o'r farn bod materion haeddiannol angen sylw yn y cynllun yn ystod y flwyddyn ond byddai'n amserol i gysylltu o fewn y chwech wythnos nesaf fel byddai modd addasu'r cynllun cyn dechrau 2012/13

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013, yn ddarostyngedig i fân addasiadau i'w gwneud gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

**9. RHEOLAETH TRYSORLYS**
**a) Diwygiad o'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys yn dilyn cyhoeddiad o Gôd Diwygiedig gan CIPFA**
**b) Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor ystyried y polisiau parthed benthyca a buddsoddi'r Cyngor gan gyfeirio'r Datganiad Polisi a'r Strategaethau ar gyfer 2012/13 a'r newidiadau i Atodlenni Rheolaeth Trysorlys i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu.

Cyfeiriodd sawl aelod at weithdy hynod ddefnyddiol a drefnodd yr Adran Gyllid iddynt gyda ymgynghorwyr Arlingclose, a nodwyd y rhoddwyd cefndir llawn i agweddau o'r adroddiad hwn yn y gweithdy.

Mewn perthynas â'r Strategaeth Fuddsoddi, gofynnodd aelod pa fuddsoddiadau mae'r Cyngor hwn yn ei wneud sy'n ystyried buddsoddiadau moesol. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid yr ymdrinir yn bennaf â llif arian y Cyngor ond bod gan y Pwyllgor Pensiynau bolisi arbennig yn ymwneud ag agweddau moesoldeb buddsoddiadau'r gronfa bensiwn mewn ecwiti.

**PENDERFYNWYD argymell i Fwrdd y Cyngor ar 14 Chwefror 2012 argymell i'r Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2012 fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiad A), Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2012/13 (Atodiad B), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad CH).**

**10. CYLLIDEB REFENIW 2011/12 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2011)**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid –
a) Yr adroddiad chwarterol ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2011/12 gan roddi crynhoad o'r sefyllfa fesul adran.
b) Fanylion pellach ynglyn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb lle y rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth bod cyllidebau'r adrannau dan reolaeth gadarn eleni ac 'roedd hyn er gwaethaf yr elfen o risg a gymerwyd wrth lunio cyllideb 2011/12 er mwyn arbed £1.2m. Cyfeiriodd at rhai o'r materion sy'n codi mewn perthynas â chwyddiant, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ymgynghoriaeth, gwariant yr adrannau (cyffredinol), treth tirlenwi a defnyddio rhan o'r gyllideb wrth gefn. Mewn perthynas â'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, nododd bod yna botensial i'r adran danwario os y bydd angen llai o raeanu y gaeaf hwn.

Tynnodd aelod sylw bod rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyfeirio at sefydlu cronfa benodol yn hytrach na throsglwyddo arian i falansau'r Cyngor. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y bwriedir adolygu cronfeydd penodol ac awgrymodd sefydlu Panel o aelodau gan gynnwys yr Arweinydd Portffolio Cyliid i ymgymryd â'r gwaith.

**PENDERFYNWYD cytuno i sefydlu'r panel canlynol i adolygu cronfeydd penodol –**
**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Huw Edwards, Margaret Griffith, Aeron Jones a Gethin G. Williams ynghyd â'r Arweinydd Portffolio Cyllid.**

Cyfeiriodd aelod at y setliad tâl cyfartal i ferched a bod y Cyngor hwn ar y blaen i lawer gyngor arall. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor wedi symud ymlaen i gael y cytundeb tâl ers 2008. O ran achosion hanesyddol, nododd bod yna nifer o gynghorau eraill lle mae risg potensial iddynt orfod talu allan miliynau o bunnoedd. Fodd bynnag daeth y Cyngor hwn i gytundeb gyda oddeutu 80% o staff sydd â potensial i gymryd achos yn erbyn y Cyngor, bod llai na 20% o achosion penodol yn weddill a chronfa benodol mewn lle i ariannu hynny pe byddai angen.

**PENDERFYNWYD llongyfarch y Cyngor am gymryd rhan flaenllaw yn delio â'r cytundeb tâl.**

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a gyflwynwyd yn adroddiad y Pennaeth Cyllid ac argymell y canlynol i Fwrdd y Cyngor –**

**i) <u>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>**

- **<u>Cynnal Priffyrdd a Goleuo</u> – os bydd amgylchiadau a gofynion graeanu y gaeaf hwn yn caniatau, yna bod yr adran yn rhoddi unrhyw danwariant perthnasol mewn cronfa ar gyfer ariannu gwaith cyfalaf ychwanegol angenrheidiol ym maes gwastraff mewn blynyddoedd dilynol.**

**ii) <u>Ymgynghoriaeth</u>**

- **Bod Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd yn adolygu'r holl drefniadau cyllidol perthnasol er mwyn ceisio datrys sefyllfa ariannol yr adran.**

**iii) <u>Gofal Cwsmer</u>**

- **Trosglwyddo £65k ar gyfer sefydlu cronfa adnewyddu gofynion technoleg gwybodaeth er mwyn gallu ymateb i batrymau gwariant anwastad ar faterion o natur corfforaethol neu traws-adrannol mewn blynyddoedd dilynol.**

**iv) <u>Cyllidebau Corfforaethol</u>**

- **<u>Darpariaeth wrth gefn ar gyfer setliad cyflog 2011/12</u> – gan bod pwysau parhaol am adnoddau cyfalaf ychwanegol, rhyddhau £998k fel ychwanegiad at ofynion o fewn y rhaglen gyfalaf.**
- **<u>Adennill Treth Tirlenwi a dalwyd i Gyllid a Thollau ein Mawreddi</u> – oherwydd sefyllfa mor ansicr mewn perthynas â chyllidebau i'r dyfodol, rhoddi £795k mewn cronfa benodol wrth gefn, fel darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd cyllidol i'r Cyngor.**

## 11. RHAGLEN GYFALAF 2011/12 – ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2011)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol. Nododd bod neges galonogol yn yr adolygiad trydydd chwarter gan bod y gwir wariant hyd at 31 Rhagfyr 2011 cymaint â 54% o'r gyllideb, o'i gymharu â dim ond 46% yn y cyfnod cyffelyb y llynedd.

Mewn perthynas â'r newidiadau i'r ffynonellau ariannu, nododd y Pennaeth y dengys cyllideb y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gynnydd o £2,520,000 ers y sefyllfa ail chwarter. Rhoddodd fanylion am y ffynonellau ariannu.

Cyfeiriodd y Pennaeth at lithriad 2012/13 gan nodi bod cyfanswm y lefel llithriadau yn y rhaglen gyfalaf o 2011/12 i 2012/13 erbyn hyn wedi cynyddu i £23,292,240 (fe adnabuwyd £19.4m erbyn yr adolygiad ail chwarter). Rhoddodd fanylion am y cynlluniau sy'n debygol o lithro ond ni olygai'r llithriadau golled mewn grant.

Mewn perthynas â'r proffiliau gwariant, tynnodd aelod sylw bod rhai adrannau wedi cyflwyno eu proffiliau ar ddechrau'r flwyddyn tra y cyflwynwyd gweddill y proffiliau oddeutu 6 mis i mewn i'r flwyddyn. Gofynnodd a fyddai'n bosibl rhoddi cyfarwyddyd i'r adrannau i wella'r drefn o gyflwyno'r proffiliau ar amser. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y codwyd y mater yn y cyfarfod diwethaf pan ystyriwyd adolygiad yr ail chwarter pryd y ceryddwyd y penaethiaid gwasanaeth perthnasol yr adeg hynny. Rhoddir ystyriaeth i wella'r drefn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nododd mai cyfran bychan o'r arian cyfalaf a ddeuai o fidiau lle y gellid mynnu proffiliau gan adrannau erbyn Ebrill, tra mae'r mwyafrif bellach yn dod o grantiau penodol a chyfran o hynny yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD argymell i Fwrdd y Cyngor dderbyn rhaglen ddiwygiedig 2011/12 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol.**

Ar derfyn y cyfarfod cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad llywodraeth leol ym Mai 2012. Diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am eu cydweithrediad yn ystod tymor ei gadeiryddiaeth. Dymunodd yn dda i'r aelodau hynny sy'n ymddeol ac hefyd i'r rhai sy'n ceisio cael eu hail-ethol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.20pm